**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Adolygiad Lleol o'r Gwasanaeth Fasgwlaidd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.**

**Cylch Gorchwyl**

## Pam rydym ni'n gwneud y gwaith hwn?

Diben Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Yn unol â'r broses sydd ganddi ar gyfer gwasanaeth GIG sy'n peri pryder, cafodd gwasanaethau fasgwlaidd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y 'bwrdd iechyd') eu dynodi gan AGIC fel Gwasanaeth sydd Angen Gwelliant Sylweddol ym mis Chwefror 2022. Roedd hyn mewn ymateb i Adroddiad Adolygu Cofnodion Clinigol Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, a gyhoeddwyd ar 20 Ionawr 2022, a nododd nifer o bryderon a oedd yn awgrymu bod risg i ddiogelwch cleifion wrth ddefnyddio gwasanaethau fasgwlaidd y bwrdd iechyd.

Mae'r pryderon hyn yn ymwneud â'r canlynol:

- Ansawdd y gofal clinigol
- Risgiau i ddiogelwch cleifion
- Gwaith gwael gan y tîm amlddisgyblaethol
- Dogfennau a gwaith cadw cofnodion gwael

Nododd adroddiad Coleg Brenhinol y Llawfeddygon nifer o argymhellion y mae angen i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â hwy er mwyn gwella ansawdd y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir er mwyn sicrhau diogelwch cleifion.

O ganlyniad i'r dynodiad Gwasanaeth sydd Angen Gwelliant Sylweddol, mae AGIC wedi penderfynu cynnal adolygiad o wasanaethau fasgwlaidd y bwrdd iechyd, a fydd yn archwilio'r cynnydd a wnaed gan y bwrdd iechyd mewn perthynas â phob argymhelliad a amlygwyd yn adroddiad Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, er mwyn cael sicrwydd ynglŷn â diogelwch cleifion ac ansawdd y gofal a ddarperir.

Bydd canlyniad yr adolygiad hwn yn galluogi AGIC i ystyried a ellir isgyfeirio gwasanaethau fasgwlaidd y bwrdd iechyd o fod yn Wasanaeth sydd Angen Gwelliant Sylweddol neu i nodi camau gweithredu pellach ar gyfer gwelliant.

## Cwmpas a methodoleg

Bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar adroddiad adolygu Coleg Brenhinol y Llawfeddygon a bydd yn asesu'r cynnydd a wnaed gan y bwrdd iechyd wrth fynd i'r afael ag argymhellion yr adolygiad i gynnal diogelwch cleifion ac ansawdd y gofal. Bydd yr adolygiad yn ystyried y camau gweithredu a roddwyd ar waith, y gwelliannau a wnaed, ac a yw'r mesurau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r argymhellion yn sicrhau gofal diogel o ansawdd da i gleifion, ac a ydynt yn gynaliadwy.

Y cwestiwn allweddol y bydd yr adolygiad hwn yn ceisio ei ateb mewn perthynas â'r gwasanaethau fasgwlaidd yw:

***A yw'r trefniadau presennol sydd ar waith o fewn gwasanaethau fasgwlaidd y bwrdd iechyd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal o ansawdd sy'n ddiogel, yn amserol ac yn effeithiol?***

Er mwyn ateb y cwestiwn hwn, byddwn yn ystyried y prif lwybrau ymholi canlynol:

- Pa drefniadau llywodraethu sydd ar waith yn y bwrdd iechyd i fonitro'r ymateb parhaus i ganfyddiadau ac argymhellion Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, ac a ydynt yn effeithiol?
- A oes tystiolaeth bod y bwrdd iechyd yn mynd i'r afael yn effeithiol â'r pryderon brys a nodwyd gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon?
- A oes tystiolaeth i gefnogi a yw'r camau a gymerwyd i gynnal diogelwch cleifion ac ansawdd y gofal yn effeithiol ac yn gynaliadwy, ac a fyddant yn helpu i wella gwasanaethau?

Yn ogystal â phrif ffocws yr adolygiad ar ymateb y bwrdd iechyd i argymhellion Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, byddwn hefyd yn ymgysylltu â'r Panel Ansawdd Fasgwlaidd fel rhan o'r broses hon i helpu i lywio'r adolygiad a'i ganfyddiadau. At hynny, byddwn yn ymgysylltu â Choleg Brenhinol y Llawfeddygon yn sgil ei ymrwymiad i wneud gwaith dilynol gyda'r bwrdd iechyd i gael sicrwydd bod camau gweithredu amserol wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'u hargymhellion ynghylch diogelwch cleifion.

Er mwyn asesu'r meysydd a nodir uchod, bydd yr adolygiad yn archwilio sampl o achosion unigol o gleifion sydd wedi defnyddio gwasanaethau fasgwlaidd y bwrdd iechyd. Yn ychwanegol, er mwyn casglu tystiolaeth bellach fel rhan o'n hadolygiad, byddwn yn cynnal y gwaith maes a ganlyn:

- Cyfweliadau gydag ystod o staff y bwrdd iechyd
- Cyfweliadau gyda rhai o aelodau Bwrdd y bwrdd iechyd
- Ymgysylltu ag aelodau staff perthnasol / cynnal arolwg o'u barn i sicrhau bod eu safbwyntiau a'u profiadau'n cael eu casglu a'u hystyried
- Byddwn yn ceisio casglu barn a phrofiadau cleifion, gan gynnwys unigolion a ddewiswyd fel rhan o'n hadolygiad o achosion
- Adolygu dogfennau a dadansoddi ystod o wybodaeth a data corfforaethol a gweithredol, gan gynnwys cofnodion a phapurau pwyllgorau
- Byddwn yn ymgysylltu â sefydliadau rhanddeiliaid eraill, lle bo angen, drwy gydol ein hadolygiad

## Amserlenni

Mae'r tabl isod yn cynnwys amcangyfrif o'r amserlen ar gyfer yr adolygiad:

| Gweithgarwch | Amserlen |
|---|---|
| Cynllunio gwaith maes ac adolygu dogfennau | Tachwedd - Rhagfyr 2022 |
| Gwaith maes | Rhagfyr 2022 - Ionawr 2023 |
| Cyhoeddi'r adroddiad | Mehefin 2023 |

## Dadansoddi ac adrodd

Drwy gydol cyfnod gwaith maes yr adolygiad, bydd y tîm adolygu'n rhoi adborth ar unwaith os bydd unrhyw faterion yn codi sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion.

Daw'r adolygiad i ben gyda chyhoeddiad adroddiad a fydd yn nodi'r themâu allweddol a'r argymhellion a nodwyd o'n gwaith. Ni fydd unrhyw wybodaeth a ddarperir gan staff yn ystod y gwaith maes yn cael ei phriodoli'n uniongyrchol iddynt yn yr adroddiad.

Bydd y bwrdd iechyd yn derbyn copi o'r adroddiad drafft er mwyn gwneud sylwadau ar ei gywirdeb ffeithiol a bydd yn derbyn copi o'r adroddiad terfynol cyn ei gyhoeddi.

Os nodir meysydd i'w gwella, bydd yn ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella a ddylai fanylu ar sut y bydd y gwasanaethau perthnasol yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodir yn yr adroddiad. Yn dilyn adolygiad, bydd unrhyw gynllun gwella'n cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC ochr yn ochr â'r adroddiad.

Os bydd angen, byddwn yn defnyddio ein proses gwasanaeth sy'n peri pryder i nodi ac uwchgyfeirio pryderon, i gefnogi unrhyw welliant neu ddysgu angenrheidiol ar gyfer y bwrdd iechyd.

## Data personol

Mae'r adolygiad hwn yn ffurfio rhan o waith AGIC i ddarparu sicrwydd annibynnol ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru. Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Rhan II, Pennod 4) yn rhoi'r pŵer i AGIC gynnal arolygon, adolygiadau ac ymchwiliadau yn y GIG neu mewn gwasanaethau a ddarperir ar gyfer y GIG.

Mae'r cylch gorchwyl hwn yn nodi ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer yr adolygiad.

Pan fyddwn yn prosesu data personol, mae hyn yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Ceir rhagor o wybodaeth yn hysbysiad preifatrwydd AGIC ar ein gwefan yn https://agic.org.uk/polisi-preifatrwydd.